

DOLEN Y TAB 115

15 - 16 Gorffennaf 2022

Oedfa Sul 17 Gorffennaf am 11

Oedfa yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys gydag eitem gan yr Ysgol Sul. Iestyn Morris fydd yn cyfeilio.

Barbeciw yn y Ganolfan a'r ardd i ddilyn.

YR OEDFAON NESAF

Gorffennaf

- 24 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth
Oedfa yng ngofal Marc John Williams
- 31 Y Parchedig Eirian Rees a'r teulu

Awst

- 7 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth
Oedfa yng ngofal y Parchedig Dafydd Owen
- 14 Edwyn Evans
- 21 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth
Oedfa yng ngofal Dr Ian Hughes
- 28 I'w drefnu

Hefyd ddydd Sul 17 Gorffennaf

12.00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa sgwrs gyda Beryl Vaughan, Llanerfyl.

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

20.00 Dechrau Canu Dechrau Canmol – Moliand y Maes

Ymunwch â Huw Edwards yn fyw o'r Sioe Frenhinol.

E-fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

TREFNIADAU SULIAU'R HAF

Yn ôl ein harfer yn ystod gwyliau'r ysgol byddwn yn cyd-addoli gydag aelodau Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth, gan gwrdd am yn ail yn y Tabernacl a Bethlehem.

Cofiwch bod yr oedfaon ym Methlehem yn cychwyn am 10.30 ac nid am 11.



Gyda gwyliau ysgol ar y gorwel, fe fydd hi'n anoddach nag erioed i lawer o deuluoedd ddarparu cinio maethlon, a'r banciau bwyd sydd wedi bod yn diwallu'r angen ers tro. Mae nhw bob amser yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r Tabernacl.

Mae modd dal i gyfrannu'n ariannol drwy siec neu drosglwyddiad banc, neu ddod â bwyd sy'n cadw i'r capel.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus

Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Pwy yw fy nghymydog?

Byddwch yn siŵr o fod wedi sylwi dros yr wythnosau diwethaf fel mae'r sylw am y rhyfel yn Wcráin wedi symud o dudalennau blaen y papurau newydd, ac o fod yn brif adroddiad y newyddion nosweithiol ar y teledu. Er bod yr ymladd yr un mor waedlyd a dinistriol ag ar ddechrau'r gyflafan, disodlwyd y sylw iddo gan frwydr mewnl y blaidd lywodraethol yn San Steffan a digwyddiadau eraill. Er nad oes dim byd yn anghyffredin ym mholisi'r cyfryngau i symud eu sylw ymlaen at faterion gwahanol, nid yw'r chwalfa i fywydau trigolion Wcráin wedi cilio o'r tir, ac mae'r gri am gymorth dyngarol yr un mor daer ag erioed. Dyma'r rheswm pam fod yr eglwys yn parhau i gadw'r apêl ar agor.

Ond nid yr Wcrániaid hynny sydd wedi dewis aros yn y wlad yw'r unig rai sy'n ei chael hi'n anodd i ymgodymu yn sgil ymosodiad byddin Rwsia. Mae amgylchiadau llawer o'r rhai a lwyddodd i ddianc oddi yno hefyd yn medru bod yn fregus iawn. Un ymhlith cannoedd o filoedd o ffoaduriaid y rhyfel yw Natalia, sydd bellach wedi derbyn lloches dros-dro gan un o drigolion Efail Isaf. Pan ddeallodd swyddogion y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol nad oedd ganddi unrhyw ddillad ac eithrio'r rhai a wisgai amdani, trefnwyd ei bod yn derbyn rhodd ariannol hael gan yr eglwys a'r gynulleidfa iaith Saesneg ar y cyd. Yn amserol ddigon, dameg y Samariad Trugarog oedd testun myfyrdod y Parchedig Aled Edwards yn yr oedfa fore Sul diwethaf pan gwblhawyd y trefniadau i'w chynorthwyo.

Yn sgil sefyllfa Natalia, derbyniodd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yr awgrym y dylid ystyried neilltuo rhan o'r arian a godir tuag at Apêl Wcráin i roi help llaw i ffoaduriaid 'lleol' eraill sydd yn wynebu trafferthion a hynny ar sail eu hanghenion a'r arian yn y gronfa a neilltuir i ddiwallu'r angen hwnnw.



Briwsion o'r Bwrdd

Nos Fawrth cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf o Fwrdd y Cyfarwyddwyr dan gadeiryddiaeth Edwyn Evans lle gwyntyllwyd nifer o faterion. Dyma grynodedb o rai o'r materion a drafodwyd.

Ffrydio Oedfaon

Nodwyd i ni dderbyn ymweliad yn ddiweddar gan un o staff Vaughan Sounds, Llanelli, cwmni sy'n brofiadol iawn mewn gosod systemau ffrydio mewn eglwysi a chapeli. Treuliodd dros awr a hanner yn archwilio'r offer presennol a 'layout' y Tabernacl i weld sut orau i adeiladu'r system. Rydym yn gobeithio derbyn ei adroddiad a'r costau yn fuan.

Sefyllfa Ariannol

Derbyniwyd mantolen hanner blynyddol gan Arwyn Jones, Trysorydd y Tabernacl. Roedd yn rhyddhad deall bod y sefyllfa yn sefydlog ar y foment a da deall fod dwy o'r ffrydiau incwm, sef y casgliad rhydd a hurio'r adeiladau, yn galonogol o'u cymharu â'r flwyddyn 2021. Er hynny pwysleisiwyd y bydd rhaid wynebu costau llawer uwch yn 2023 a 2024 yn bennaf oherwydd y codiadau ym mhri tanwydd.

Apêl Wcráin

Cytunwyd i adolygu ychydig ar ganllawiau rhannu arian yr apêl fel bo modd neilltuo peth ohono i gynorthwyo ffoaduriaid o Wcráin sydd bellach yn byw yn lleol (gweler hefyd y stori flaen).

Mainc Newydd

Adroddwyd fod y gynulleidfa iaith Saesneg wedi archebu mainc i'w gosod yn y Cwtsh Meddwlgarwch er cof am y ddiweddar Vera Gammon.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 13 Medi.

CLO NEWYDD I'R CAPEL

Rhybudd i bawb sydd ag allwedd i ddrws y capel yn eu meddiant. Oherwydd cyflwr truenus y clo presennol bu'n rhaid i Bwyllgor y Meddiannau ei newid er mwyn osgoi cael ein hunain yn y sefyllfa lle nad oedd modd agor y drws i'r Tabernacl o gwbl. Mae un allwedd newydd wedi ei gosod ar y bwsh o allweddi a gedwir yn y guddfan o flaen y Ganolfan, ac mae un arall gan John Llew.

PANED A CHLONG
Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA AND A CHAT
Come for a friendly and relaxed chat

Bob Dydd Mawrth
Every Tuesday
10.30-12.00

Y Ganolfan
Capel Tabernacl
The Vestry,
Tabernacl Chapel

BABI TWM
Y Ganolfan,
Capel Tabernacl
10.00-11.30

Mehefin 6ed & 20fed,
Gorffennaf 4ydd & 18fed

Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i
plant/wyrion/wyresau

FFAIR HAF CANOLFAN GARTH OLWG *Am ddim!*

DIGON O ADLONIAINT A HWYL I'R TEULU CYFAN

- Halibwl Miwsig**
Clap a chân
- Gweithdai**
Canu
Dawnsio
Drama i blant
Iwos
- Yr Urdd**
Gweithgareddau chwaraeon
- Sesiynau Oedolion**
Gwrio
Ipad's
Trefnu blodau
Uwchgylchu
- Citrus Art**
Sgiliau
syrcau
- Matthew Williams**
Diddanwr
plant

23-07-22 10-4

CANOLFAN GARTH OLWG CENTRE
GARTHOLWGLLCC
HEOL SANT ILLTUO,
PENTRE'R EGLWYS, CF38 1RQ

01443 570075

Llogi'r Capel neu'r Ganolfan

E-bostiwrch
gehpengwern@yahoo.co.uk

Neges Testun
07710 237327

Ffonio
01433 225205

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk